CYNGOR CYMUNED BETWS

2009 01 Ionawr Cofnodion

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar ddydd Mercher y 21ain o Ionawr 2009 am 7.00 yr hwyr.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Betsan Jones (Cadeiryddes), y Cynghorwyr Loreen Lewis, June Gunter, Maldwyn John, D Arnallt James, Richard Howell, Anthony Richards, Carwyn James, Menna Roberts, Anne Sizmur ar Cynghorwr Sir Audrey Jones.

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Annette Price a Catherine Smith.

DATGANIAD O DDERBYN Y SWYDD
NODWYD fod y Cynghorwr Anne Sizmur wedi llofnodi a dyddiedig y 'Ddatganiad o dderbyn y swydd'.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
NODWYD ni wneuthur datganiad gan aelodau am Fuddiannau Ariannol a rhai heb fod yn Ariannol.

1.DARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 10fed O RHAGFYR 2008.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Anthony Richards ac eiliodd y Cynghorwr Richard Howell fod cofnodion cyfarfod yr 10fed o Rhagfyr yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Tir ger Heol Y Felin, Betws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr bod hi wedi derbyn anfoneb interim wrth Cyfreithiwr Llys Cennen. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn cysylltu â'r Cyfreithiwr i weld beth sy'n digwydd ynglin ar tir ger Heol y Felin, Betws hyd yn hyn.

2.2 Bwrdd Hysbysu'r Cyngor Cymuned.
Roedd y Cynghorwr Richard Howell wedi diweddaru'r Cynghorwyr ynglin a'r cyfarfod ddiweddard gyda Mr Francis o Cyngor Sir Caerfyrddin. Fe ddywedodd y Clerc bod hi wedi gofyn am trwyddedu wrth Cyngor Sir Caerfyrddin i rhoi'r bwrdd hysbysu tu allan i Ysgol Gynradd y Betws. NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.3 Bwrdd Picnic – Ysgol Gynradd y Betws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr bod hi wedi siarad gyda'r Prifathrawes o Ysgol Gynradd y Betws sydd wedi rhoi manylion bwrdd picnic hoffe gael i'r Ysgol (£555 plws TAW). PENDERFYNWYD y Cynghorwyr i brynnu'r bwrdd picnic i Ysgol y Betws. Y Clerc i archebu'r bwrdd picnic.

2.4 Bin a meinciau'r Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod Mr Gerwyn Thomas was cadarnhau fod ef wedi archebu'r meinciau a'r bin. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn erlid y mater hwn.

2.5 Gardd Synhwyro a Choffa - Parc y Betws.
Dywedodd y Clerc ei bod hi'n aros am ymateb wrth Adran Golau Gyhoeddus Cyngor Sir Caerfyrddin ynglin a'r cost of prynnu golau solar i Ardd Synhwyro a Choffa ym Mharc y Betws. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn erlid y mater hwn.

2.6 Goleuadau Croeso.
Dywedodd y Clerc mae hi'n aros am gwybodaeth pellach cael ei ddanfon iddi. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn erlid y mater hwn.

2.7 Safle Gwaith Glo Betws.
Darllennod y Clerc llythyr a dderbyniwyd yn ddiweddar wrth T R Jones ynglin a coeden dderw sydd ar safle Gwaith Glo'r Betws, a dywedodd nid oes yna gorchymyn cadwraeth ar unrhyw coedwig ar safle Gwaith Glo'r Betws. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn cysylltu gyda Cyngor Sir Caerfyrddin i wneud ymholiadau pellach. Hefyd dywedodd Cynghorwr Arnallt James fod yna coeden derw ar llwybr troed Maesybetws.

2.8 Cwrs Hyfforddi Cod Ymddygiad.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod Cyngor Sir Caerfyrddin ar hyn o bryd yn darparu cyrsiau hyfforddu i Cynghorwyr Cymunedol. Ond, mae nhw'n aros am fwy o wyboadaeth wrth Cyngor Dref Rhydaman, cyn yn gallynt traddodi'r cyrsiau. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn erlid y mater hwn gyda Cyngor Dref Rhydaman.

2.9 Llofnodion Awdurdodedig.
Dywedodd y Cynghorwr Loreen Lewis wrth y Cynghorwyr pan aeth hi ar ffurflen 'newid llofnod' i Banc Lloyds TSB, nid oedd ganddynt unrhyw cofnod fod y Cynghorwr Richard Howell ac Betsan Jones yn llofnodion awdurdodedig. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn erlid y mater hwn.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Shelter Cymru.
Mae gohebiaeth wedi cael ei dderbyn wrth Shelter Cymru, mae nhw'n gofyn os fydd y Cynghorwyr am iddyn rhoi cyflwyniad i'r Cynghorwyr. Awgrymodd y Cynghorwr Richard Howell ac eiliodd y Cynghorwr Carwyn James fod y Clerc yn trefnu fod Shelter Cymru yn rhoi cyflwyniad i'r Cynghorwyr. Cytunwyd y Cynghorwyr.

3.2 Gohebiaeth: Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol.
•Chwarae i Gymru – Rhoddwyd i Gynghorwr Betsan Jones.
Un Llais I Gymru – Y Llais.
•Un Llais I Gymru – Cynllun Datblygiad Lleol Sir Gar.
•Cyngor Sir Caerfyrddin – Llywodraeth Cynulliad Cymru Arwiniad Drafft ar osod terfyn cyflymder lleol.
•Ambiwlans Awyr Cymru – Gweiddi.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Mae Cyngor Cymuned y Betws wedi rhoi caniatâd i'r ceisiai cynllunio canlynol:-
E/20422 – Dymchwel gegin gwreiddiol, ystafell amlbwrpas, neuadd a wc ac ailadeiladu cegin, ystafell amlbwrpas ac estyniad ystafell wely ger 94 Heol y Cyrnol, Betws (18-2008/09).
E/20469 – Storfa Gaeaf i'r Gwartheg, Ffarm Pant Y Betws.
E/20339 – Dyluniad, golwg allanol y datblygiad (E/15892 – adeiladi annedd) tir ger Ffarm Bryneithin, oddi ar Heol Maerdy, Betws (19-2008/09).
E/20338 – Dyluniad, golwg allanol y datblygiad (E/15891 – adeiladi ystabl) tir ger Ffarm Bryneithin, oddi ar Heol Maerdy, Betws (20-2008/09).
E/20425 – Diswyddiad cyflwr 3 o cais cynllunio (E/17037) Glyncywarch Washery, Betws (17-2008/09).
E/20333 – Diswyddiad cyflwr 14 o cais cynllunio (E/17037) Glyncywarch Washery, Betws (21-2008/09).

4.2 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi caniatâd i'r ceisiai cynllunio canlynol:-E/20161 - Estyniad sengl i gefn ty ger 34 Heol Pentwyn, Betws (12-2008/09).
E/20162 – Ffurfian pwll gwanhau o dwr wyneb ar dir ger Yr Hen Waith Glo'r Betws, Heol

Pentwyn, Betws (13-2008/09).

4.3 Me Cyngor Sir Caerfyddin wedi gwrthod rhoi caniatad i'r cais cynllunio canlynol:-
E/20108 – Dau garej dwbl, storfa amaethyddol, amnewidiad o Fframwaith gwreiddiol ger Ffarm Banc y Wern, Betws (10-2008/09).

5. CYFRIFON
5.1 Taliadau.
1. Lwfans y Cadeiryddes (rhandal terfynol) (001085) £100.00
2.Cyngor Sir Caerfyrddin (Goleuo'r Llwybrau) (001806) £298.94
3.Capel Newydd (Cynnal a chadw'r Golauadau) (001087) £25.00
4.Eglwys Dewi Sant (Cynnal a chadw'r Golauadau) (001089) £50.00
5.Mr Burridge (Cynnal a chadw'r Llwybrau Troed) (001089) £824.00
6.Cyfreithwr Llys Cennen (Tâl) (001090) £1451.00
CYFANSWM £2,748.94

PENDERFYNODD y Cynghorwyr i dalu'r biliau uchod.

5.2 Incwm.
Cyngor Sir Caerfyrddin (Rhandal terfynol y Praecept) £4,666,67

5.3 Trefnu'r Praecept am 2009/2010.
Roedd copi o'r gwariant blynyddol ar amcangyfrif am 2009/2010 wedi cael ei ddanfon i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod misol. Trafodwyd pob eitem ar y rhestr yn fanwl yn y cyfarfod misol. Yn dilyn sgwrs fer awgrymodd y Cynghorwr Arnallt James ac eiliodd y Cynghorwr Maldwyn John fod y Cyngor Cymuned yn gofyn am £14,000 wrth Cyngor Sir Caerfyrddin am 2009/2010. Cytunwyd y Cynghorwyr. PENDERFYNWYD bod y Clerc yn gofyn i Gyngor Sir Caerfyrddin am y ffigwr uchod.

5.4 Eraill.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod hi wedi derbyn llythyr wrth Cyngor Sir Caerfyrddin ynglin a tâl o goleuo'r llwybrau am 2009/2010. Mae'r swm amcangyfrif fydd yn cael ei tâl i Cyngor Cymuned y Betws yw £1000.53 (£870.03 a TAW £130.50). Fydd y figwr iawn yn cael ei ddanfon at y Cyngor Cyngor yn mis Awst 2009.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Kevin Jones y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd fod 6 trosedd i'w nodi yn ardal y Betws yn ystod mis Rhagfyr, sy'n cynnwys 2 ymosodiad, 1 bergerleiaeth arall, 1 lladrad o gerbyd, 1 lladrad ac 1 niwed troseddol.

Adroddodd y Cynghorwyr am aflonyddwch gan berson ifanc, sydd yn byw ger y Ganolfan Teuluol y Betws. Dywedodd PC Kevin Jones fod yr Heddlu yn ymwybodol or matter hyn.

Fe ofynnodd y Cynghorwyr faint a fu'n bresennol yn y Disgo Glas diwethaf a fu yn mis Ionawr 2009. Adroddodd PC Kevin Jones nid oedd llawr iawn o bobl yno. Mae'r Heddlu yn mynd I rhoi holiadur I'r plant yn Ysgol Gyfun Rhydaman.

Adroddodd y Cynghorwr Sir Audrey Jones fod yna fan camera cyflymder wedi cael ei sefydlu tu allan I Ysgol Gynradd y Betws tua 6 o'r gloch yn y bore. Mae'r rhewlydd yn dawel iawn yr adeg hyn or bore, pam mae'r fan yna? Dywedodd PC Kevin Jones yn anfodus nid yw'r Heddlu yn gyfrifol am y fan camera cyflymder y Partneriaeth Camera Cyflymder sydd yn gyfrifol am hyn.

NODWYD y pwyntiau uchod gan y Cynghorwyr. Rhoddodd y Gadeiryddes ddiolch I PC Kevin Jones am ei adroddiad.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Adroddodd y Cynghorwr Sir Audrey Jones ar y materion canlynol:-

Fowlio cwn – adroddodd fod hi wedi planio cael cyfarfod wythnos nesaf gyda'r Swyddog iechyd a diogelwch o Gyngor Sir Caerfyrddin ynglin a fowlio cwn ar Heol y Betws. Gofynnodd y Cynghorwr Richard Howell os oedd gan y Cyngor Sir Caerfyrddin unrhyw taflennu ar gael fel y gall y Cynghorwyr ddosbarthu i perchenogion cwn. Cadarnhaodd y Cynghorwr Sir Audrey Jones fydd hi'n edrych mewn i'r mater hyn.

Gofynnodd y Cynghorwr Betsan Jones os yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn mynd i gasglu gwydr am ailgylchu wrth deiliadon. Dywedodd y Cynghorwr Sir Audrey Jones fod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cadarnahu fu nhw'n mynd i darparu fwy o cyflesterau ailgylchu gwydr. Dywedodd y Cynghorwr Richard Howell fod llawer iawn o ailgylchu yn dal i fynd i safle tirlenwi. Beth yw Polisi Ailgylchu Cyngor Sir Caerfyrddin? Cadarnhaodd y Cynghorwr Sir Audrey Jones fydd hi'n edrych mewn i'r mater hyn.

Adroddodd y Cynghorwr Arnallt James eto am ei pryderion ynglin a llwybrau troed at Gwaith Glo Hen y Betws, ac hefyd am cau'r llwybrau troed dros dro. Cadarnhaodd y Cynghorwr Sir Audrey Jones fydd hin edrych i mewn i'r mater hyn. PENDERFYNWYD y Cynghorwr fod y Clerc yn cysylltu gyda Mr Towns i weld os y war gael i cael cyfarfod gyda'r Cynghorwyr.

NODWYD y pwyntiau uchod gan y Cynghorwyr. Rhoddodd y Gadeiryddes ddiolch i'r Cynghorwr Sir Audrey Jones am ei adroddiad.

8. UNRHYW FATER ARALL.
8.1 Gliniadur – Clerc.
Gofynnodd y Clerc os fydd y Cyngor Cymuned yn bodlon prynu gliniadur iddi cario allan ei ddyletswyddau, oherwydd nid yw ei cyfrifiadur personol yn gweithio. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn gwneud ymholidau mewn i gost o prynnu gliniadur.

Gorffennodd y Cyfarfod am 9.00 yr hwyr.